OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1795 (Cy.190)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Diwygio) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud	- -	*5 Gorffennaf 2006*
Yn dod i rym	- -	*7 Gorffennaf 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Diwygio) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 7 Gorffennaf 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1997(**3**).

2. I'r graddau nad yw'r diwygiadau a wneir i'r Prif Reoliadau gan Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Diwygio) 2006(**4**) yn gymwys o ran Cymru(**5**)mae'r diwygiadau hynny drwy hyn yn cael eu cymhwyso o ran Cymru yn ddarostyngedig i ddiwygiadau pellach a wneir gan y Gorchymyn hwn.

(**1**) 1983 p.40; gwnaed diwygiadau perthnasol gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p.30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p.56), Atodlen 37, paragraff 57 a chan Ddeddf Addysg 2005 (p.18), Atodlen 14, paragraff 9. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1983 (ac eithrio'r rhai o dan adran 1), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 i fod yn effeithiol o 1 Gorffennaf 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau o dan adran 1 i'r Cynulliad a hynny'n effeithiol o 8 Mehefin 2006: O.S. 2006/1458.

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**3**) O.S. 1997/1972 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/1965, O.S. 1999/229, O.S. 2000/2192, O.S. 2003/2945, O.S. 2003/3280, O.S. 2005/2114 ac O.S 2006/453.

(**4**) O.S. 2006/453.

(**5**) Gwnaed y Rheoliadau hynny o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983. Mae swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2 wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol (*gweler* troednodyn (1) ar dudalen 1), ac felly, nid yw'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Diwygio) 2006 o dan yr adran honno yn gymwys o ran Cymru.